Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Gwaith Ymchwil ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol – darganfod eich rôl

**Cysylltwch â:**

[Research-involvement@wales.nhs.uk](mailto:Research-involvement@wales.nhs.uk)

02920 230 457

www.healthandcareresearch@wales.nhs.uk

# Gwaith Ymchwil ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol – darganfod eich rôl

Bob wythnos, mae cannoedd o bobl yn helpu i sicrhau bod gwaith ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei gynnal yng Nghymru, Mae gwaith ymchwil o ansawdd da yn hanfodol i'n helpu ni i ganfod triniaethau a ffyrdd newydd o wella gwasanaethau iechyd a gofal.

Nid yw'r gwaith ymchwil hwn yn bosibl heb gymorth a chyfraniadau gan y cyhoedd. Gall hyn fod drwy **gyfranogi** mewn astudiaethau ymchwil unigol. Gall hefyd ddigwydd wrth i bobl rannu eu hamser a'u profiadau personol er mwyn helpu i lywio blaenoriaethau a chynllun gwaith ymchwil a sut y caiff ei ddarparu a'i roi ar waith, fel ei fod yn fwy perthnasol i anghenion pobl. Cyfeirir at hyn fel **cynnwys y cyhoedd** mewn gwaith ymchwil.

Er mwyn i bobl allu cymryd rhan mewn gwaith ymchwil mae angen i ni ddweud wrthynt fod gwaith ymchwil yn cael ei gynnal a pha mor bwysig yw eu cyfranogiad a'u cyfraniad nhw ato. Cyfeirir at yr hyn a ddywedwn ni wrth bobl am waith ymchwil fel **ymgysylltu â'r cyhoedd.**

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn credu bod cynnwys y cyhoedd yn bwysig os ydym am wneud gwaith ymchwil da, diogel a moesegol ac y dylai fod yn rhan arferol a rheolaidd o'r broses ymchwil.

Mae llawer o grwpiau ac astudiaethau ymchwil eisoes yn cynnwys ffyrdd o gynnwys y cyhoedd mewn rhannau o'r broses ymchwil neu yn y broses gyfan. Pan mae hyn yn cael ei wneud yn dda, gall cynnwys y cyhoedd arwain at waith ymchwil sy'n wirioneddol bwysig i bobl, sy'n cael ei gynnal yn dda ac sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Mae pobl sy'n rhan o waith ymchwil mewn ffordd ystyrlon yn dweud wrthym ei fod yn gallu eu helpu i deimlo'n fwy hyderus, gan ei fod yn helpu pawb i ddeall pa mor bwysig yw eu cyfraniad.

Fodd bynnag, mae yna rai problemau o hyd o ran cynnwys y cyhoedd fel rhan arferol o'r broses ymchwil. Pan mae'n cael ei wneud yn wael, gall cynnwys y cyhoedd fod yn brofiad negyddol i bawb, yn enwedig pan fydd wedi'i gynllunio'n wael, pan na fydd rolau'n glir neu pan mai arwynebol yn unig fydd cynnwys y cyhoedd.

Credwn hefyd po fwyaf y bydd pobl yn ymwybodol o werth gwaith ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac yn ei ddeall, y mwyaf tebygol yw hi y byddan nhw am gyfrannu ato. Gallai hyn olygu cymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil, awgrymu blaenoriaethau ar gyfer gwaith ymchwil yn y dyfodol, rhannu eu profiadau personol ag ymchwilwyr i helpu i lywio a chynllunio sut y bydd astudiaeth yn cael ei chynnal, neu hyrwyddo rôl a gwerth ymchwil yn ein system iechyd a gofal. Dim ond drwy gynnal gweithgareddau ymgysylltu llwyddiannus i roi cyhoeddusrwydd i fanteision gwaith ymchwil ym maes iechyd i boblogaeth Cymru y gellir cyflawni hyn.

Cenhadaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yw cefnogi a datblygu gwaith ymchwil rhagorol sy'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd, lles a ffyniant pobl yng Nghymru.

Mae angen cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn ffordd gwerth chweil i gefnogi'r genhadaeth hon, a'n bwriad yw:

- gwella'r ffyrdd y mae cynnwys y cyhoedd yn cael ei ymgorffori drwy'r dirwedd iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a
- gwella'r ffydd y gall ymgysylltu â'r cyhoedd hyrwyddo'r cyfraniad hanfodol y gall y

cyhoedd ei wneud i waith ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a chynnig cyfleoedd cynhwysol, agored i gymryd rhan mewn gwaith ymchwil, gan groesawu llawer o safbwyntiau gwahanol.

Er mwyn deall sut i gyflawni hyn, mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi gweithio gydag ymchwilwyr, rheolwyr ymchwil ac aelodau'r cyhoedd i gyd-gytuno ar weledigaeth a chamau gweithredu ymarferol a ddylai fod yn sail i'n dull o gynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd fel rhan o gyfnod y strategaeth newydd (2020-2024).

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar gymdeithas yn gyffredinol, ac wedi amlygu pwysigrwydd gwaith ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn helpu ein dealltwriaeth o'r clefyd a sut i liniaru ei effeithiau. Mae gwaith ymchwil sy'n ymwneud â Covid-19 wedi'i ddatblygu a'i gynnal ar gyflymder heb ei ail, ac rydym yn falch o'r ffordd y llwyddwyd i gydgysylltu mewnbwn y cyhoedd i'r astudiaethau hyn mor gyflym, ac ymateb aruthrol y cyhoedd sydd wedi rhoi o'u hamser a'u profiadau i'r ymdrechion hyn. Mae'r gwaith o reoli ac ymateb i Covid-19 yn debygol o fod gyda ni am amser hir, a bydd yn newid sut rydym yn rhyngweithio â'n gilydd fel unigolion a grwpiau, gyda goblygiadau sylweddol ar gyfer cynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn gwaith ymchwil.

**Creu cynllun a rennir ar gyfer gwella sut rydym ni'n cynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn gwaith ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol**

Mae'r ddogfen hon yn cyfuno allbynnau'r dull cyd-gynlluniedig hwn, yn cynnwys myfyrdodau ar brofiadau cyfredol y rhai sy'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil ac yn ymgysylltu ag ymchwil; y dyheadau a rennir ar gyfer ble y carem fod mewn pedair blynedd; a'r gweithgareddau angenrheidiol i gyrraedd y pwynt hwnnw.

Er mai'r gwaith ymchwil a'r prosesau sy'n cael eu hariannu a'u rheoli gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru fydd ein prif gylch dylanwad, mae cynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystyrlon yn berthnasol i'r holl waith ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol sy'n digwydd yng Nghymru, a byddem yn argymell yn gryf y dylai ymchwilwyr sy'n cael eu hariannu gan ffynonellau allanol ddilyn yr argymhellion ar gyfer ymarfer da a fydd yn deillio o'r cynllun hwn.

Mae hefyd yn bwysig rhannu disgwyliadau o'r hyn sy'n bosibl. Ni fydd pob astudiaeth ymchwil yn addas i bawb gymryd rhan ynddi. Bydd sut y bydd y cyhoedd yn cymryd rhan hefyd yn amrywio o un astudiaeth ymchwil i'r llall.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu, profi a lansio Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd mewn Ymchwil. Cynlluniwyd y Safonau hyn i wella ansawdd a chysondeb y gwaith o gynnwys y cyhoedd, a bydd yn adnodd allweddol i gefnogi'r ymdrech o gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer cynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn gwaith ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Myfyrdodau ar gynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn gwaith ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ar hyn o bryd**

Wrth ddatblygu ein dull cyd-gynlluniedig, casglwyd gwybodaeth drwy ddigwyddiadau ac arolygon sy'n darparu darlun o sut mae pobl yn teimlo am weithgareddau cynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd ar hyn o bryd yng Nghymru. Y farn gyffredinol yw bod:

- Dealltwriaeth a derbyniad o rôl cynnwys y cyhoedd yn y gymuned ymchwil wedi

gwella'n sylweddol dros y pum mlynedd ddiwethaf;

- Er bod yna welliannau wedi bod, nid yw cynnwys y cyhoedd yn ystyrlon yn rhan reolaidd o'r broses ymchwil o bell ffordd;

- Mae adnoddau ar gael i hwyluso gwaith cynnwys y cyhoedd, ond nid yw pawb o'r gymuned ymchwil yn ymwybodol o'r adnoddau a'r cymorth sydd ar gael;

- Mae rhan fwyaf o'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu am effaith cynnwys y cyhoedd yn feintiol, sy'n gallu bod yn ddefnyddiol ond sydd â gwerth cyfyngedig o ran penderfynu a yw cynnwys y cyhoedd wedi bod yn ystyrlon ai peidio;

- Mae yn ddigon o enghreifftiau ac astudiaethau achos da ar ddulliau o gynnwys y cyhoedd, ond nid ydynt yn cael eu casglu a'u rhannu'n rheolaidd neu'n gyson, sy'n tanseilio gwerth y gwaith hwn i gefnogi agenda cynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd;

- Mae yna rai rhwystrau gweinyddol o hyd i gynnwys y cyhoedd yn effeithiol, yn enwedig o ran darparu ad-daliad amserol am eu hamser i aelodau'r cyhoedd drwy rai prifysgolion;

Mae grwpiau ymchwil a ariennir a phrosiectau ymchwil unigol ar y cyfan yn rhagweithiol o ran cynnal gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyfer eu hymchwil eu hunain, ond nid oes dull wedi'i gytuno eto ar y ffordd orau o ddarparu strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd ehangach yn effeithiol, a all ychwanegu gwerth.

**Gweledigaeth ar gyfer rôl cynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn y dyfodol**

Drwy'r trafodaethau sydd wedi helpu i lywio'r cynllun hwn, daeth consensws i'r fei am y dyheadau ar gyfer y dyfodol a sut y dylai cynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd gael eu hadlewyrchu yn yr amgylchedd ymchwil yng Nghymru erbyn diwedd cyfnod strategaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sef 2020-2024.

Dyma'r uchelgeisiau:

- Diwylliant ymchwil lle mae cynnwys y cyhoedd yn rhan dderbyniol, arferol o'r cylch ymchwil, ac yn cael ei ymgorffori ar draws y system ymchwil yng Nghymru;

- Bydd y cyfleoedd i'r cyhoedd fod yn rhan o waith ymchwil yn hawdd eu cyrchu ac mor agored a chynhwysol â phosibl;

- Bydd lefel briodol o adnoddau ar gael i gefnogi cynnwys y cyhoedd yn effeithiol a bydd hyfforddiant a chymorth cynhwysfawr ar gael i ymchwilwyr ac aelodau'r cyhoedd;

- Gellir gwella gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol â'r cyhoedd drwy gyhoeddi straeon ac astudiaethau achos sy'n dangos y rôl hanfodol bosibl sydd ganddynt mewn gwaith ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wrth iddynt gymryd rhan a chyfranogi.

**Gwireddu'r uchelgeisiau**

Mae'r cynllun hwn yn amlygu'r meysydd ffocws a'r gweithgareddau y dylid rhoi sylw iddynt er mwyn gwireddu'r uchelgeisiau a rennir hyn. Ar gyfer rhai gweithgareddau mae eisoes yn glir sut y bydd y camau gweithredu'n cael eu cymryd a phwy fydd yn gysylltiedig â hyn. Ar gyfer gweithgareddau eraill, bydd angen trafod ymhellach i weld beth yw'r camau ymarferol a'r goblygiadau ar gyfer cyflawni'r gweithgareddau.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r cynllun hwn wedi'i seilio ar aelodau'r cyhoedd, ymchwilwyr a llunwyr polisïau yn cydweithio a rhannu syniadau i gytuno ar yr hyn sydd angen ei wneud, a dylai'r gwaith o'i weithredu adlewyrchu'r dull cydweithredol hwn hefyd. Nod y cynllun yw bod yn ddogfen fyw y gellir ei diweddaru wrth i weithgareddau newydd ddod i'r fei o'r camau gweithredu cychwynnol ac wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg am werth gwaith cynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn bwriadu cynnal y model cymuned ymarfer, gan ei hesblygu'n fforwm sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod gwaith cynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd, ac yn fan i rannu arferion da.

# Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2020-2024

## Maes Ffocws 1:

**Creu rhwydwaith mwy ystyrlon ar gyfer cynnal trafodaethau ar gynnwys y cyhoedd, cymorth gan gymheiriaid a rhannu arferion da.**

**Camau Gweithredu:**

1.1 Creu fforwm ar gyfer cynnal trafodaeth reolaidd ar gynnwys y cyhoedd a rhannu arferion da

- Bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n datblygu cynnig ar gyfer fforwm newydd, gan weithio gyda grwpiau cyfredol, ac yn sefydlu'r fforwm gan ystyried sut i gydbwyso digwyddiadau wyneb yn wyneb a dulliau ymgysylltu rhithwir.

1.2 Treialu model o 'seminarau' ar ymgysylltu â'r cyhoedd, gydag enghreifftiau â thystiolaeth ac 'awgrymiadau'

- Bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n datblygu manyleb ac yn gwahodd ac asesu datganiadau o ddiddordeb gan grwpiau sy'n dymuno darparu cyfres o seminarau ar gynnwys y cyhoedd. Bydd y cynnig yn cael ei asesu i helpu i ystyried gwerth ac effaith y gwaith.

---

## Maes Ffocws 2:

**Sicrhau bod cynnwys y cyhoedd yn cael ei hyrwyddo a'i gefnogi ar lefelau uwch ledled Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.**

**Camau Gweithredu:**

2.1 Pennu disgwyliadau ynghylch rolau ymchwilwyr i hyrwyddo cynnwys y cyhoedd

- Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i ddarparu canllawiau ar y disgwyliadau a'r ffyrdd y gall ymchwilwyr arwain drwy esiampl ar gyfer rôl cynnwys y cyhoedd ym mhrosesau a diwylliant gwaith ymchwil.
- Bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n gweithio gyda chydweithwyr ar draws y gymuned ymchwil i ystyried ymarferoldeb a goblygiadau sut y gellir cynnwys cyfrifoldebau cynnwys y cyhoedd mewn rolau swyddi.

2.2 Sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar lefel uwch lywodraethu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

- Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n cynnwys cynrychiolaeth briodol o'r cyhoedd fel rhan o drefniadau llywodraethu lefel uchel ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

2.3 Creu cysylltiadau ag addysg israddedigion ac ôl-raddedigion i hyrwyddo gwerth ymchwil a chynnwys y cyhoedd fel agwedd allweddol ar hyfforddiant

- Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gynnal arolwg er mwyn deall sut mae agweddau ymchwil yn cael eu cynnwys ar hyn o bryd mewn cyrsiau/yng nghwricwlwm prifysgolion a pha mor amlwg yw'r lle a roddir i gynnwys y cyhoedd fel rhan o ddeunyddiau cyfredol.
- Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i weithio i hyrwyddo enghreifftiau o ymarfer lle mae cynnwys y cyhoedd wedi'i ymgorffori'n llwyddiannus yn y cwricwlwm.

---

## Maes Ffocws 3:

**Datblygu strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd lwyddiannus ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.**

**Camau Gweithredu:**

3.1 Creu a gweithredu strategaeth ystyrlon ar gyfer codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd gwaith ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

- Bydd Canolfan Gymorth a Chyflawni Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn arwain ar y gwaith o ddatblygu strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd hyn yn cynnwys datblygu cyfres ddiwygiedig o negeseuon am werth ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, yn cynnwys datgan pwysigrwydd (a'r gwahaniaeth rhwng) cyfranogi a chymryd rhan. Bydd hefyd yn cydbwyso digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a gweithgareddau 'allgymorth' sy'n cynnig dull cynhwysol drwy gyfrwng sefydliadau cenedlaethol a lleol a grwpiau cymunedol.
- Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i ystyried y cyfleoedd i ddatblygu partneriaeth gyda menter 'Be Part of Research', yn cynnwys adnodd chwilio sydd ar gael i'r cyhoedd ledled y DU ar gyfer astudiaethau ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol sy'n 'fyw' ar hyn o bryd.

---

## Maes Ffocws 4:

**Bod yn glir am sut mae cynnwys y cyhoedd yn cael ei adlewyrchu ym mhrosesau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ei hun.**

**Camau Gweithredu:**

**4.1** Cynnal archwiliad o brosesau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn erbyn y DU

- Llywodraeth Cymru i gynnal asesiad o brosesau cyfredol yn erbyn Safonau'r DU ar Gynnwys y Cyhoedd.

**4.2** Safonau Cynnwys y Cyhoedd i nodi meysydd i'w gwella ymhellach

- Llywodraeth Cymru i ystyried sut y dylai'r defnydd o Safonau'r DU ar Gynnwys y Cyhoedd gael eu hymgorffori yn nisgwyliadau ac amodau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

## Maes Ffocws 5:

**Mynd i'r afael â rhwystrau gweinyddol i gynnwys y cyhoedd yn effeithiol.**

**Camau Gweithredu:**

**5.1** Egluro trefniadau a disgwyliadau ar gyfer defnyddio adnoddau cynnwys y cyhoedd a pholisïau talu.

- Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i sefydlu gweithgor am gyfnod penodol yn cynnwys cydweithwyr sy'n cael anawsterau i sicrhau ad-daliad am eu hamser i aelodau'r cyhoedd, a'r rhai sydd wedi dod o hyd i ffyrdd i reoli'r mater hwn, er mwyn canfod ateb y gall yr holl sefydliadau perthnasol ei fabwysiadu.

------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

## Maes Ffocws 6:

**Darparu hyfforddiant, adnoddau a chymorth effeithiol i ymchwilwyr, rheolwyr ymchwil a gweinyddwyr i'w galluogi i gynnwys y cyhoedd yn dda.**

**Camau Gweithredu:**

**6.1** Adolygu'r 'pecyn' cyfredol o gymorth ar gyfer cynnwys y cyhoedd a sicrhau ei fod yn ateb y diben

- Canolfan Cymorth a Chyflawni Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i adolygu'r cymorth a'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd, gan asesu unrhyw fylchau neu gyfleoedd i wella darpariaeth.
- Canolfan Cymorth a Chyflawni Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i fabwysiadu dull mwy rhagweithiol o hyrwyddo'r adnoddau sydd ar gael ac ymgysylltu ag ymchwilwyr a rheolwyr/gweinyddwyr ymchwil i gefnogi eu defnydd.

- Canolfan Cymorth a Chyflawni Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i ddatblygu 'ffeithlun' neu rywbeth tebyg i ddangos sut y gall cynnwys y cyhoedd wneud cyfraniad ym mhob cam o'r broses ymchwil. Efallai y bydd cyfle i gysylltu'r datblygiad hwn er mwyn brolio straeon ac astudiaethau achos fel enghreifftiau o werth cynnwys y cyhoedd.

**6.2** Ystyried achredu hyfforddiant cynnwys y cyhoedd, yn seiliedig ar Safonau'r DU ar Gynnwys y Cyhoedd, er mwyn cefnogi nifer yr ymchwilwyr sy'n manteisio arno.

- Canolfan Cymorth a Chyflawni Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i ddatblygu pecyn hyfforddiant ar-lein ar sail Safonau'r DU ar Gynnwys y Cyhoedd.
- Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i ystyried sut i achredu'r pecynnau hyfforddiant sydd ar gael i gefnogi cynnwys y cyhoedd, a beth yw'r materion ymarferol a'r goblygiadau sy'n gysylltiedig â phennu disgwyliadau ar gyfer cynnal a gloywi hyfforddiant.

---

# Maes Ffocws 7:

**Casglu gwybodaeth ddefnyddiol i ddangos gwerth cynnwys y cyhoedd i waith ymchwil**

**Camau Gweithredu:**

**7.1** Adolygu a diwygio gofynion adrodd ar gyfer prosiectau a grwpiau a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, i gynnwys elfen ansoddol.

- Bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn gweithio i ymgorffori adroddiadau priodol ar gynnwys y cyhoedd fel rhan o'r fframwaith monitro newydd ar gyfer y grwpiau ymchwil sy'n cael eu hariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.
- Grwpiau seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i fyfyrio'n flynyddol ar sut mae gweithgareddau'n cael eu cyflawni gan ystyried Safonau'r DU ar Gynnwys y Cyhoedd fel ymarfer 'archwilio' neu hunanasesu.

**7.2** Datblygu templed i gasglu straeon ac astudiaethau achos ar gynnwys y cyhoedd yn gyson.

- Bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn gweithio i ymgorffori adroddiadau priodol ar gynnwys y cyhoedd fel rhan o'r fframwaith monitro newydd, yn seiliedig ar fodel naratif cyson ynghylch 'pwy oedd yn rhan o'r gwaith', 'beth wnaethon nhw', a 'pa wahaniaeth wnaethon nhw'.
- Bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ystyried cyfleoedd i ddangos straeon ac astudiaethau i hyrwyddo gwerth cynnwys y cyhoedd.

**7.3** Cyflwyno cymorth a chanllawiau ar gyfer adborth i aelodau'r cyhoedd, a ffyrdd i aelodau'r cyhoedd rannu eu teimladau am eu profiadau o gymryd rhan.

- Bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cwmpasu a oes canllawiau i'w cael ar lefel Cymru, y DU neu'n rhyngwladol ar ddarparu adborth i aelodau'r cyhoedd sydd wedi cymryd rhan, a sut y gellir addasu'r rhain a'u hyrwyddo yng Nghymru.

**7.4** Creu fframwaith i werthuso'r gwahaniaeth y mae'r cynllun gweithredu hwn a'r dull cyd-gynllunio wedi'i wneud i gynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru.

- Bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn defnyddio'r fforwm cynnwys y cyhoedd rheolaidd i gydweithio ar gynllun gwerthuso, gan ystyried y gwahaniaeth a ddisgwylir a sut y gellid mesur hyn.